

# ANNIBYNIATH YN DY BOCED



ANNIBYNI AETH  
YN DY BOCED

Argraffiad cyntaf: Mehefin 2017  
Ail argraffiad: Gorffennaf 2017  
Trydydd argraffiad: Mai 2019  
Pedwerydd argraffiad: Mai 2020  
Pumed argraffiad: Ionawr 2021

© *YesCymru* 2021  
Cedwir pob hawl

cynllun y clawr: Rhys Aneurin

ISBN: 978-1-78461-474-4

Cyhoeddwyd gan *YesCymru*  
Swyddfa 23609, Blwch Post 92, Caerdydd CF11 1NB  
post@yes.cymru;  
argraffwyd gan Y Lolfa Cyf.  
www.ylolfa.com

# ANNIBYNNIAETH YN DY BOCED





*Diolch i'r holl aelodau a chefnogwyr sydd wedi llunio a golygu'r cynnwys ac i bawb sydd wedi helpu gyda gwaith cyfieithu'r llyfryn hwn. Diolch i Owen Donovan (stateofwales.com) am ei waith ymchwil manwl, diolch i Rhys Aneurin am gynllun y clawr a diolch i'r Lolfa am bob cymorth.*

*Ni allwn honni bod gennyn ni'r holl atebion, ond mae'r llyfryn hwn yn cynnig sail gychwynnol bwysig a chadarnhaol ar gyfer trafodaeth. Ein gobaith yw y bydd YesCymru yn gallu newid holl naws a chynnwys y drafodaeth honno yn sylfaenol. Dyma'r pumed argraffiad o Annibyniaeth yn Dy Boded. Bydd mwy o argraffiadau wrth i'r drafodaeth ddatblygu. Bydd fersiwn ddiweddaraf y llyfryn hwn ar gael ar [cy.yes.cymru/annibyniaeth](http://cy.yes.cymru/annibyniaeth).*

# Cyflwyniad

**M**ae angen gwirioneddol am y llyfryn hwn sydd yn eich dwylo. Pleidleisiodd y Deyrnas Gyfunol i adael yr Undeb Ewropeaidd yn 2016. Mae'r Alban yn paratoi ar gyfer ail refferendwm ar annibyniaeth. Daeth ailuno Iwerddon yn bosibilrwydd real. Mae'r Deyrnas Gyfunol yn newid yn sylfaenol ac mae'n hollbwysig na chaiff Cymru ei gadael ar ôl.

Yn y tudalennau sy'n dilyn bydd *YesCymru* yn ymateb i rai o'r cwestiynau mwyaf dyrys ynglŷn ag annibyniaeth. Sut all cenedl fach fel Cymru ffynnu yn y byd modern? Pa adnoddau sydd gennyn ni i'n cynnal? Sut allai annibyniaeth newid ein cymdeithas a'n heconomi? A beth fyddai ein perthynas newydd â'r teulu o genhedloedd byd-eang?

Bydd unrhyw un sydd wedi dadlau dros annibyniaeth i Gymru ar hyd y blynyddoedd yn gyfarwydd iawn â'r cwestiynau y bydd pobl yn eu taflu aton ni, a'r rheini o blaid ac yn erbyn

annibyniaeth fel ei gilydd. Mae'r llyfryn hwn yn croesawu'r fath gwestiynau pwysig fel sail i drafodaeth gall, ac rydyn ni'n gobeithio'n arw y bydd rhywfaint o'r cynnwys sy'n dilyn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar ddinasyddion Cymru i ateb dadleuon gwan a digalon amddiffynwyr y *status quo*, ac yn ein grymuso i osod yr agenda ar gyfer annibyniaeth i Gymru drwy fynd i'r afael â'r cwestiynau nad oes neb wedi'u gofyn hyd yma.

Mae gwladgarwch at Gymru wedi'i wreiddio yn ddwfn yn ein pobl. Mae hyn i'w weld yn amlwg ym mhob gêm rygbi neu bêl-droed, yn ei holl amrywiaeth ac angerdd modern, cymhleth. Ond nid rhywbeth a deimlwn ar ddiwrnod gêm yn unig yw Cymreictod. Mae'n rhywbeth y bydd pob un ohonon ni'n dod ar ei draws yn ein bywydau bob dydd, yn ein hymwneud â'n cymdogion a'n cydweithwyr, ein teuluoedd a'n cyfeillion.

Rydyn ni'n gwybod hefyd nad oes o reidrwydd berthynas rhwng balchder yn ein Cymreictod a chefnogaeth i annibyniaeth. Nid yn unig ar gyfer y rheini sydd eisoes yn cefnogi'r achos, aelodau o grwpiau ymgyrchu neu bleidiau gwleidyddol, y paratowyd y llyfryn hwn – ond hefyd, yn



hollbwysig, ar gyfer y rheini sydd ag amheuon; sy'n cefnogi gyda'u calonnau ond nid gyda'u rhesymeg. Y bobl hynny sy'n chwilfrydig ynglŷn ag annibyniaeth (neu'n "Indy-curious").

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd yn eich cyflwyno i fudiad newydd a dylanwadol ar lwyfan gwleidyddol Cymru. Crëwyd *YesCymru* yn haf 2014, gan griw bychan oedd yn gobeithio rhoi cymorth i'r ymgyrch dros annibyniaeth i'r Alban yn y cyfnod cyn eu refferendwm cyntaf. Y gobaith a'r bwriad oedd y byddai'r egni creadigol a brofwyd dros yr haf hwnnw yn arwain at drafodaeth o ddifri yma yng Nghymru. Lansiwyd *YesCymru* yn ffurfiol yn 2016, ac ers hynny mae'r mudiad wedi tyfu'n gyflym, gyda miloedd o aelodau a grwpiau ar draws Cymru – a'r tu hwnt.

Mae *YesCymru* yn credu mewn dinasyddiaeth gynhwysol. Dinasyddiaeth yw hon sy'n croesawu'r ffaith bod pawb sy'n dewis Cymru yn gartref iddyn nhw – waeth beth fo'u hoedran, anabledd, rhywedd, statws priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol – yn ddinasyddion llawn yn y Gymru newydd.

Yn 2014, pleidleisiodd yr Alban o drwch blewyn i aros yn rhan o'r Deyrnas Gyfunol. Yn dilyn refferendwm yr UE yn 2016, mae'n ymddangos nad yw'r sefyllfa honno mor sicr. Mae'r cwestiwn, felly yn aros: pa ddyfodol posibl all fod i Gymru? Wedi'i llyncu o fewn rhyw "undeb" crebachlyd ac adweithiol, ynteu'n genedl annibynnol ymhlith y cenhedloedd?

Sofraniaeth cenhedloedd yw holl sail cyfraith ryngwladol. Bwriad y llyfryn hwn yw cyflwyno ein hachos o blaid ein gallu i lywodraethu ein materion ein hunain. Ein cwestiwn, yn wyneb y dadleuon a gyflwynwn yma, ynghyd â'r newidiadau cyfansoddiadol cyflym a all fod ar y gorwel, yw hwn: sut mwyach mae modd anwybyddu'r mater o annibyniaeth i Gymru a phaddadl bosibl a all fod o blaid y *status quo*?

# *Pam Annibyniaeth?*

**B**wriad y llyfryn hwn yw ateb eich cwestiynau am annibyniaeth i Gymru mewn modd syml, onest a chryno. Mae wedi'i anelu at bobl sy'n chwilfrydig, yn ansicr neu hyd yn oed yn gwbl amheus. Ein nod yn y canllaw hwn yw ei dweud hi fel y mae, a chyflwyno ffeithiau yn eglur. Bydd yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i fod yn fwy hyderus am Gymru annibynnol – ac i ddylanwadu ar bobl eraill.

Credwn ei bod yn hen bryd cael dadl lawn ynglŷn ag annibyniaeth i Gymru. Pam?

## **Pam lai?**

Fe allech feddwl bod Cymru'n rhy fach i fod yn annibynnol, ond gwledydd bach yw rhai o wledydd mwyaf llewyrchus, mwyaf cyfartal a hapusaf y byd. Beth sy'n gwneud pobl Cymru yn wahanol i'r Slofaciaid, y Daniaid neu'r Gwyddelod? Onid synnwyr cyffredin yw dweud y dylai pob penderfyniad sy'n effeithio ar Gymru gael ei

wneud yng Nghymru? Nid *rhai* o'r penderfyniadau, ond *pob un* ohonyn nhw. Nid yw Cymru'n berffaith, ac mae digon o broblemau y mae angen mynd i'r afael â nhw. Ond oni fyddai'n haws delio â'r problemau hynny petai ein llywodraeth yn un i Gymru, â'i holl sylw ar anghenion Cymru? Ar hyn o bryd, mae San Steffan yn ein gweld yn ddibwys; caiff polisïau San Steffan eu llunio ar sail anghenion pobl eraill. Mae'n amlwg nad yw polisïau San Steffan yn cael eu cyflwyno er budd Cymru, fel y gwelwn ni yn ystod trafodaethau ar Brexit a phandemig COVID-19. Os yw sefydliad, yn hanesyddol, wedi methu rhoi'r sylw dyledus i'ch anghenion chi, onid y cam naturiol yw ffurfio'ch sefydliad eich hun a llywio'ch tynged eich hun? Mae annibyniaeth yn gyfle i greu Cymru well.

## **Mae Cymru'n wahanol**

Dro ar ôl tro, fe glywn ni bobl yn dweud: "Cymru? Onid rhan o Loegr yw hi?". Mae gan Gymru lawer yn gyffredin â gwledydd a rhanbarthau eraill y Deyrnas Gyfunol, ond fe wyddon ni fod yna lawer sy'n ein gwneud yn wahanol. Mae gan Gymru ei gwleidyddiaeth a'i gwerthoedd ei hun a'i bydolwg ei hun; mae ganddi ei diwylliant, ei hanesion

a'i hiaith ei hun. Mae pobol o bob cefndir yn dylanwadu ar y rhain, boed yn aelodau o gymunedau amlddiwylliannol hynaf Prydain yn Butetown Caerdydd, yn ddisgynyddion i'r bobl a symudodd i Gymru yn ystod y chwyldro diwydiannol, neu'n 'Gymry Newydd' o Ewrop a gweddill y byd sydd wedi gwneud Cymru yn gartref iddyn nhw yn ystod yr unfed ganrif ar hugain. Ond eto, caiff Cymru ei thrin fel un o ranbarthau Lloegr yn rhy aml o lawer. Nid creu rhaniadau yw bwriad annibyniaeth; mae'n ymwneud â dathlu ein lle unigryw ni yn y byd a dod yn rhan go iawn o deulu cenhedloedd y byd.

## **Cael y llywodraeth y byddwch yn pleidleisio drosti**

Mae Aelodau Seneddol Cymru yn ffurfio 6 y cant o Dŷ'r Cyffredin. Mewn etholiadau cyffredinol, does dim gwahaniaeth sut bydd Cymru'n pleidleisio, y llywodraeth y mae Lloegr ei heisiau a gawn yn San Steffan. Ers 1945, dim ond am ddwy flynedd mae pleidlais pobl Cymru wedi dylanwadu ar fap gwleidyddol y Deyrnas Gyfunol, sef rhwng 1964 a 1966.

Llais bach sydd gan Gymru yn San Steffan, ac mae'n gwanhau. Mae pobl Cymru yn anfon 40

Aelod Seneddol i San Steffan ar hyn o bryd, gyda'r Comisiwn Ffiniau yn cynnig cwtogi'r rhif yma i gyn lleied â 31. Undeb anghyfartal yw'r Deyrnas Gyfunol, ac felly y bydd hi byth. Mae angen i bobl Cymru gymryd rheolaeth dros eu tynged eu hunain.

### **Dim rhagor o esgusodion o Fae Caerdydd**

Er bod cynnydd wedi bod mewn rhai meysydd ers datganoli, Cymru yw'r genedl dlotaf yn y Deyrnas Gyfunol o hyd, ac mae gwelliannau mewn meysydd sydd wedi eu datganoli, fel iechyd ac addysg, wedi bod yn rhwystredig o araf. Mae modd dadlau mai dim ond Llywodraeth Cymru sydd â phwerau ym mhob maes a all gyflawni newid gwirioneddol a chynaliadwy. Er enghraifft, sut gallwch chi ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol mewn modd gwirioneddol gyfannol os nad yw gwariant ar fudd-daliadau a phwerau llawn dros drethi o dan eich rheolaeth? Byddai gan Lywodraeth Cymru sy'n cymryd ei henw o ddifrif, yn hytrach nag un sy'n dal i arddel meddylfryd 'gweinyddiaeth ddatganoledig', ryddid i fod yn fwy uchelgeisiol dros Gymru. Byddai annibyniaeth yn arfogi Cymru i wyrdroi ein tynged, ond byddai'n golygu

hefyd y gallwn sicrhau bod ein gwleidyddion ein hunain yn atebol, gan eu gorfodi nhw i fod yn fwy uchelgeisiol ar gyfer dyfodol ein cenedl.

Mae'n risg, ond mae cymaint i'w ennill. Mae llawer o bobl yn dweud bod annibyniaeth yn syniad sy'n apelio, ond na fyddai Cymru byth yn gallu ei fforddio. A byddai, mi fyddai risgiau ynghlwm wrth ddod yn wlad annibynnol. Does dim byd mewn bywyd heb risg, yn enwedig pethau sy'n werth eu cael; ond mae pobl yn mynd amdani oherwydd eu bod eisiau bywyd gwell iddyn nhw'u hunain. Ac mae mwy a mwy o bobl yn dechrau gweld bod y ddadl am annibyniaeth yn rhoi gormod o sylw i'r risg, a dim digon i'r enillion. Newid bach iawn yn y ffordd o edrych ar bethau yw hyn, ond mae'r canlyniad yn eich grymuso.

Mae Cymru'n gyfoethog o ran adnoddau, ac mae ganddi'r potensial i fod ar flaen y gad yn yr ymdrechion i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, ond dydyn ni ddim yn manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau hynny. Byddai annibyniaeth yn agor drysau newydd i Gymru, gan alluogi pobl Cymru i adeiladu economi ar sail blaenoriaethau Cymreig yn hytrach na rhai Prydeinig.

Gallwn adeiladu cymdeithas decach i unioni'r anghyfiawnderau hanesyddol a phresennol sy'n wynebu pobl groenliw, y gymuned LHDTQ+, pobl anabl, yr oddeutu 30 y cant o blant yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi, a grwpiau eraill sydd wedi'u hesgeuluso a'u rhoi ar y cyrion yn rhy hir. Mae angen i ni gydnabod y risgiau, heb ddilorni potensial Cymru. Ac ystyried ein diffyg grym o dan y gyfundrefn bresennol, gellid gofyn ai'r risg fwyaf oll yw gadael i bethau fod fel y maen nhw.

## **Dechrau newydd**

Ers colli ein diwydiannau trwm, mae Cymru wedi bod mewn cyflwr o ddirwasgiad. Waeth pwy sydd mewn grym yn San Steffan, mae pethau wedi mynd am yn ôl yng Nghymru. Mae ein heconomi'n drychinebus i'r mwyafrif, a dirywiad ein sefydliadau addysgol yn adlewyrchu heriau ein cymdeithas a diffyg atebolrwydd gwleidyddol. Mae gormod o'n pobl ifanc yn wynebu dyfodol heb ddim gobaith nac uchelgais wirioneddol. Allwn ni ddim dibynnu ar bobl eraill i wyrddroi'r sefyllfa yma. Mae'n bryd i bobl Cymru fwrw ati, a gweithio gyda'n gilydd i greu cenedl well. Fydd neb arall yn gwneud hynny droson ni. Dim ond ni all ysgrifennu'r bennod nesaf yn hanes Cymru.



# *Pam nad yw datganoli'n ddigon, a pha wahaniaeth fyddai annibyniaeth yn ei wneud?*

**E**rs 1999, mae Llywodraeth Cymru wedi cael cyfrifoldeb dros rai agweddau ar bolisi cyhoeddus, fel iechyd, addysg, llywodraeth leol, datblygu economaidd, a'r Gymraeg. Felly pam fod angen annibyniaeth? Allwn ni ddim gweithio gyda'r gyfundrefn sydd ohoni?

Er bod datganoli yn gam mawr ymlaen i Gymru, mae'r gyfundrefn bresennol yn ddiffygiol. Mae Llywodraeth Cymru'n cael gwneud penderfyniadau am rai pethau, ond mae Llywodraeth San Steffan yn aml yn cyfyngu ar yr hyn mae Cymru'n cael ei wneud. Enghraifft o hyn yw'r setliad ariannol newydd a gyflwynwyd ers mis Ebrill 2019. Mae'n rhoi'r grym i Gymru amrywio cyfraddau treth incwm, ond mae'r grym hwnnw'n gyfyngedig.

Mae'n rhaid ei wneud o fewn fframwaith cyllidol y bydd gweinidogion y llywodraeth yng Nghaerdydd a'n "partner" mwy yn Llundain wedi cytuno arno.

Mae yna restr hir o feysydd lle nad oes gan Gymru rym o gwbl! Er enghraifft, chawn ni ddim pasio llawer o gyfreithiau troseddol, a does gennyn ni ddim rheolaeth dros ein llysoedd, ein carchardai na'n gwasanaeth prawf. Mae llywodraeth San Steffan yn bwriadu rhoi cyfrifoldeb i ardal Manceinion i reoli ei heddlu ei hun, ond nid i Gymru. Ar yr un pryd, mae grymoedd croes cynhenid ar waith mewn datganoli yng Nghymru. Er taw'r naratif amlycaf yw bod datganoli yn well nag annibyniaeth lawn, pan ddaw cyfle i bleidleisio dros ragor o bwerau, bydd llawer o Aelodau Seneddol Cymru'n pleidleisio yn erbyn hynny. Digwyddodd hyn gyda Bil Plismona a Throsedd 2016, pan ataliodd llawer o Aelodau Seneddol Cymru eu pleidlais yn hytrach na chefnogi datganoli plismona a phwerau eraill i Gymru.

Hefyd, caiff penderfyniadau ynglŷn â chynhyrchu ynni eu gwneud y tu allan i Gymru, am nad yw llywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn credu y gallwn ni wneud y penderfyniadau hyn droson

ni'n hunain. Dan y setliad datganoli diweddaraf, mae'n rhaid i unrhyw ddatblygiad sy'n cynhyrchu dros 350 MW o ynni gael ei gymeradwyo gan San Steffan. Ym mis Mehefin 2018, rhoddodd Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol ddiwedd ar brosiect a fyddai wedi adeiladu'r morlyn llanw cyntaf o'i fath yn y byd ym Mae Abertawe. Dim ond un enghraifft yw hyn o'r ffordd mae San Steffan yn cadw pŵer dros rai meysydd, gan wrthod y cyfle i Lywodraeth Cymru drawsnewid ein heconomi.

Caiff Cymru ei gorfodi i fynd i ryfel, gan gynnwys rhyfeloedd anghyfreithlon fel Irac, yn groes i'n hewyllys.

O ran darlledu, prin iawn y gwelwn ni fywyd Cymru ar ein teledu. Yn yr Alban, lansiodd sianel newydd BBC Scotland yn ddiweddar. Mae Cymru'n gorfod bodloni ar friwsion o fwrdd San Steffan. Pwy all gyfiawnhau bod Aelodau Seneddol o Loegr yn penderfynu ar dynged S4C, neu'n gwrthod rhagor o raglenni Cymreig i BBC Cymru?

Mae'r system fel y mae hi yn cyfyngu ar bwerau Llywodraeth Cymru, ac mae'n gymysglyd a dryslyd hefyd. Hyd yn oed i arbenigwyr, mae'n aneglur

pwy sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau, ac am beth. Mae llywodraeth y Deyrnas Gyfunol wedi cadw rheolaeth ar dros 200 o feysydd polisi, yn amrywio o'r rhai y byddech chi'n eu disgwyl – fel diogelwch y wladwriaeth – i eithriadau rhyfedd fel masnachu ar y Sul a hofrenfadau! Os na all y gwleidyddion eu hunain fod yn siŵr ynglŷn â phwerau Cymru, sut mae disgwyl i bleidleiswyr cyffredin wybod? Dylai gwleidyddion fod yn atebol i bobl Cymru am eu gweithredoedd, ond heb wybod pwy sy'n gyfrifol am beth, mae hynny'n amhosibl. Mae'r gyfundrefn bresennol yn tanseilio sawl un o egwyddorion sylfaenol democratiaeth.

### **Beth yw ystyr datganoli mewn gwirionedd?**

Mae trefn llywodraeth Prydain yn drefn sydd wedi'i chanoli'n arw, gyda'r grym yn y pen draw yn senedd San Steffan. Mae datganoli'n dirprwyo rhai pwerau i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon – ond nid yw'n eu hildio'n gyfan gwbl. Mae senedd y Deyrnas Gyfunol yn cadw'r awdurdod eithaf dros y Deyrnas Gyfunol gyfan trwy gysyniad o'r enw sofraniaeth seneddol; gall unrhyw bwerau mae'n eu rhoi i'r llywodraethau datganoledig gael eu cipio ymaith ar fympwy.

Er bwriadau gorau'r prosiect datganoli, mae'r ffordd y cafodd ei gynllunio wedi cyfyngu ar allu Cymru i drefnu ei materion ei hun. Fe allen ni weithio i wella'r drefn bresennol – datganoli rhagor o bwerau i Gymru, ac ar yr un pryd geisio cyfyngu ar allu'r Deyrnas Gyfunol i roi fetto ar gynlluniau Cymru – ond a yw hynny'n ddigon? Mae annibyniaeth yn golygu rhoi llechen lân i Gymru. Mae *YesCymru*'n credu mai'r ffordd orau ymlaen yw dwyn holl gymunedau Cymru ynghyd i greu democratiaeth sy'n glir, yn dryloyw, ac yn atebol i'r cyhoedd.

# *Gwneud Cymru'n gyfoethocach*

**U**n o'r rhesymau rydyn ni'n dadlau dros annibyniaeth yw oherwydd ein bod yn credu y gall fod yn fodd o roi hwb i economi Cymru, ac o ehangu'r sylfaen drethu er mwyn gwella ansawdd bywyd pobl yng Nghymru. Ar hyn o bryd rydyn ni'n cael ein gorfodi i ddewis rhwng torri gwariant neu godi trethi.

Mae *YesCymru*'n credu y bydd annibyniaeth yn helpu i drawsnewid economi Cymru er mwyn iddi fod mewn sefyllfa i wireddu ei photensial, dod yn fwy bywiog, yn fwy amrywiol, yn fwy ystwyth ac yn fwy abl i wynebu heriau'r dyfodol.

## **Rhy fach**

Mae pawb yn gyfarwydd â'r hen dôn gron bod Cymru yn 'rhy fach' i fod yn annibynnol. Ond os edrychwn ar gyfandir Ewrop yn unig, fe welwn fod cyfanswm o 18 o genhedloedd annibynnol sy'n

llai o ran poblogaeth na Chymru. Beth sydd gan y gwledydd hyn yn gyffredin, a beth sy'n eu gwneud yn wahanol i Gymru? Nid eu maint, na gallu a doniau eu pobl, ond y ffaith eu bod yn bwerau sofran a chanddyn nhw reolaeth dros yr holl ffyrdd posibl o lywio a datblygu eu heconomi.

Does ond angen meddwl am un o'n cymdogion agosaf yn hyn o beth. Mae Gweriniaeth Iwerddon, gyda chynnyrch domestig gros (GDP) o €54,300 y pen, yn gwneud cymaint yn well na Chymru a Gogledd Iwerddon, sydd â GDP o €22,900 a €24,400 y pen (Eurostat, 2019).

At hynny, yn hytrach na bod yn faen tramgwydd, gall bod yn fach gynnig mwy o gyfleoedd. Mae traethawd Adam Price a Ben Levinger, *The Flotilla Effect*, yn nodi nifer o fanteision sydd gan genhedloedd bach dros wledydd mwy pan ddaw'n fater o economeg: maen nhw'n fwy agored i fasnach yn gyffredinol; maen nhw'n dueddol o fod â chydlyniant cymdeithasol gwell; mae eu prosesau gwneud penderfyniadau democrataidd yn well; ac maen nhw'n ei chael hi'n haws addasu i ergydion economaidd.

Ystyriwch, er enghraifft, pa mor gyflym mae economïau Gweriniaeth Iwerddon a Gwlad yr

Iâ wedi adfer eu sefyllfa ar ôl cwmp ariannol 2008. Effeithiodd y Dirwasgiad Mawr yn drwm ar economïau'r ddwy wlad. Fel y Deyrnas Gyfunol, Unol Daleithiau America a llawer o wledydd Ewrop, aethon nhw drwy gyfnod o galedi llym. Ond erbyn 2014, roedd economi Gweriniaeth Iwerddon yn tyfu ar gyfradd gyflymach na Tsieina ac India, gyda diweithdra a diffyg ariannol y Llywodraeth yn lleihau'n gyflym tu hwnt. Mae Gwlad yr Iâ – gwlad fechan o ryw 300,000 o bobl – yn gwneud yn well byth, ac mae ei heconomi bellach wedi cyrraedd yr un maint ag oedd cyn 2008.

Pan syrthiodd y Llen Haearn ddechrau'r 1990au, ymddangosodd llawer gwlad lai na Chymru o'r hen Floc Dwyreiniol. Maen nhw wedi datblygu'n wledydd sionc, effeithiol, allblyg ar lwyfan y byd. Mae gwladwriaethau'r Baltig, Estonia, Latfia a Lithwania, wedi bod yn arbennig o lwyddiannus. Er gwaethaf cyflwr enbyd eu heconomiâu wrth iddyn nhw gefnu ar gomiwnyddiaeth, maen nhw wedi tyfu yn arweinwyr byd, yn perfformio'n well na rhannau helaeth o orllewin Ewrop. Sut olwg allai fod ar Gymru heddiw, pe baem ni wedi ennill ein hannibyniaeth ym 1990? Yn *The Flotilla Effect*,



ystyrir yn fanwl sut fyddai Cymru wedi datblygu pe baem ni wedi dod yn annibynnol yn 1990. Pe bai hynny wedi digwydd, mae'r gyfrol yn casglu y byddai economi Cymru 39 y cant yn fwy nag ydyw heddiw.

## **Rheolaeth dros ein heconomi**

Wrth gwrs, ni fyddai annibyniaeth o reidrwydd yn gwneud Cymru'n gyfoethocach. Ond yr hyn y byddai'n ei wneud yw rhoi pwerau economaidd i Lywodraeth Cymru nad ydyn nhw ganddi ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o bwerau sydd gan Lywodraeth Cymru dros drethi a benthyca. Fodd bynnag, mae'r pwerau sydd ganddi wedi eu rhwystro er mwyn sicrhau na fydd Lloegr dan anfantais. Er enghraifft, mae Trysorlys y Deyrnas Gyfunol wedi gwrthod amryw o alwadau gan Lywodraeth Cymru i ddatganoli Toll Teithwyr Awyr, gan ddweud heb gywilydd y byddai gwneud hynny'n rhoi mantais i Faes Awyr Caerdydd dros Faes Awyr Bryste. Yn gyffredinol, mae Llywodraeth Prydain yn rhoi grant blynyddol i Fae Caerdydd, ac mae Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio i dalu am wasanaethau Cymru. I bob pwrpas, mae hyn yn golygu mai anghenion y Deyrnas Gyfunol yn ei chyfanrwydd sy'n gyrru polisi economaidd Cymru, a does dim modd i hwnnw roi sylw i'n cryfderau ni.

Byddai annibyniaeth yn rhoi reolaeth lawn i Gymru dros bolisi economaidd. Byddai gennym reolaeth lawn dros drethu, gan gynnwys rheolaeth dros eu casglu. Dim mwy o adael i bobl gyfoethog iawn osgoi talu trethi tra bo pobl gyffredin yn gorfod gwneud hynny. Gellid symleiddio'r cod treth, gan ddileu llawer o'r bylchau a'r manau gwan y mae cwmnïau amlwladol yn manteisio arnyn nhw ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, mae cod treth y Deyrnas Gyfunol yn 17,000 o dudalennau o hyd; mae cod Hong Kong yn llai na 300 o dudalennau. Mae rhai gwledydd – er enghraifft Norwy – yn cyhoeddi pob ffurflen dreth, fel bod y system yn gwbl dryloyw. Nid yw'r un o'r pethau hyn yn bosibl o dan ddatganoli, ond byddai'r cyfan ar gael pe bai Cymru'n annibynnol.

Yn yr un modd, ar ôl annibyniaeth, byddai Cymru'n gyfrifol am reoleiddio'i sector ariannol ei hun. Pan aeth y banciau i'r wal yn 2008, penderfynodd y Deyrnas Gyfunol eu hachub. Er bod hyn wedi cael effaith enfawr ar yr economi ac ar fywydau pobl gyffredin, ni chafodd yr un banciwr ei ddwyn i gyfrif am gamblo gyda'n harian a'i golli. Cymharwch hyn, unwaith eto,

â'r hyn sydd wedi digwydd yng Ngwlad yr Iâ. Penderfynodd ei llywodraeth hi achub pobl gyffredin, gan ddiddymu rhannau o forgeisi a benthyciadau busnesau bach a oedd wedi cynyddu o ganlyniad i'r cwmp. Cafodd chwech ar hugain o fancwyr oedd wedi bod yn gamblo'n anghyfrifol gyda'r economi eu carcharu. Gallai Cymru annibynnol greu ei system reoleiddio ei hun, wedi ei chynllunio i ddiogelu pawb, nid y banciau'n unig.

Yn wir, byddai gan Gymru annibynnol y rhyddid i roi ar waith yn gyflym lawer o'r syniadau hynny a gydnabyddir yn hanfodol i'n ffyniant. Mae'r posibiliadau'n ddi-ben-draw, o fuddsoddi mewn isadeiledd band eang a thrafnidiaeth, i ddatblygu prosiectau ynni mawr, a'n rhoi ein hunain ar flaen y ciw er mwyn denu diwydiannau gweithgynhyrchu uwch-dechnoleg. Gellid cynnwys pob un o'r polisiau hyn mewn agweddau eraill ar ddatblygu sy'n werthfawr i ni fel gwlad, fel parch at yr amgylchedd, cyfiawnder cymdeithasol, a sicrhau ffyniant ac ansawdd bywyd da drwy Gymru gyfan.

# *A all Cymru fforddio bod yn annibynnol?*

**E**fallai fod annibyniaeth yn ddeniadol fel syniad, ond a fyddai'n gweithio'n ymarferol? A all Cymru fforddio sefyll ar ei thraed ei hun?

Un ddadl sy'n codi dro ar ôl tro yw bod gan Gymru ddiffyg cyllidol mawr.

Serch hynny, y pwynt pwysig i'w wneud yw nad rhywbeth anochel yw'r diffyg cyllidol hwn. Mae Cymru mewn diffyg cyllidol ar hyn o bryd oherwydd y camreoli economaidd sy'n deillio o fod yn rhan o'r Deyrnas Gyfunol. Nid yw'n dilyn bod rhaid i Gymru ddioddef diffyg o'r fath yn ei refeniw, ac nid oes rhwystrau o safbwynt ein galluoedd, ein system addysg, na chwaith ein safle yn y byd, sy'n golygu nad oes modd i ni fynd i'r afael â'r mater hwn fel gwlad annibynnol.

Yn fwy na hynny, drwy edrych ar amcangyfrif y balans cyllidol dros y ddau ddegawd diwethaf, fe

welwn fod y diffyg hwn wedi amrywio'n sylweddol o'i lefel isaf yn 1999/00 i'w lefel uchaf yn 2009/10, yn dilyn yr argyfwng ariannol byd-eang. Roedd diffyg cyllidol y Deyrnas Gyfunol gyfan mor uchel â £167.4 biliwn yn 2009/10, tra bo disgwyl i Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol fenthylg hyd at £372 biliwn i dalu costau pandemig COVID-19. Mae'n wir hefyd bod gwledydd annibynnol yn aml yn gweithredu gyda diffyg cyllidol hirdymor. Yn wir, dros y degawd diwethaf, bu gan bron bob un o wledydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (neu'r OECD) ddiffyg cyllidol a oedd, ar gyfartaledd, rhwng 3 ac 8 y cant. Yn ôl ffigurau'r OECD, 2001 oedd y tro diwethaf y bu gan y Deyrnas Gyfunol warged yn y gyllideb, a dim ond chwe gwaith y bu ganddi warged ers 1970! Pan oedd yr argyfwng ariannol ar ei anterth, roedd gan Iwerddon ddiffyg cyllidol o 30 y cant, ac mae bellach wedi adfer y sefyllfa drwy reoli ei heconomi'n ofalus.

Fel gwlad annibynnol, yn y tymor canolig i'r tymor hir, gallwn anelu i fanteisio i'r eithaf ar bopeth sydd o'n plaid, gan ryddhau ein hunain o gyfyngiadau sydd wedi'u gorfodi arnon ni gan San

Steffan o ran yr economi a threthiant. O fod wedi'n clymu i'r Deyrnas Gyfunol, rydyn ni'n dioddef effeithiau enghraifft glasurol o economi sy'n cymryd adnoddau ac yn ymelwa arnon ni.

## **Y sefyllfa bresennol**

Er bod modd gweld potensial Cymru a'r holl opsiynau sydd ar gael i ni fel gwlad fach annibynnol, mae'n bwysig cydnabod y sefyllfa fel ag y mae hi, a deall y dasg sydd o'n blaenau – yn enwedig o ran sefyllfa Cymru yng nghyd-destun cyfoeth cymharol a gwariant cyhoeddus heddiw. Serch hynny, mae cafeat mawr ynghlwm wrth unrhyw ystyriaethau o'r fath, sef bod cryn dipyn o waith dyfalu i'w wneud ynghylch nifer o'r ffigurau a ddefnyddir fel dangosyddion. Er enghraifft, er ein bod yn gwybod beth yw'n ffigurau allforio ni y tu allan i'r Deyrnas Gyfunol i'r Undeb Ewropeaidd a'r Unol Daleithiau ynghyd â phartneriaid masnachu eraill, dydyn ni ddim yn gwybod beth yw'r ffigurau allforio o Gymru y tu mewn i'r Deyrnas Gyfunol ei hun. Gan hynny, dylid ddisgrifio ein Cynnyrch Domestig Gros (neu GDP) fel amcangyfrif yn unig, heb inni wybod beth yw'r posibilrwydd bod gwallau yn yr amcangyfrif hwnnw chwaith. Gydag

annibyniaeth gallwn weddnewid y system.

O ran y balans cyllidol, ym mis Mawrth 2020 cyhoeddodd Canolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd ddiweddariad am wariant cyhoeddus yng Nghymru ac effaith bosibl annibyniaeth. Rhaid croesawu'r adroddiad hwn yn wyneb diffyg gwybodaeth am faterion cyllidol Cymru. Canfu'r adroddiad hwn fod gwariant cyhoeddus tua £43 biliwn yng Nghymru yn 2018-19, er mai £29.5 biliwn a godwyd mewn trethi.

Mae'r rheini sydd yn erbyn annibyniaeth yn dadlau bod y ffigurau hyn yn rhoi terfyn ar unrhyw ddadl o blaid annibyniaeth. Mae gan Gymru fwllch cyllidol o £13.5 biliwn, ac oni fyddwn ni'n cau'r bwllch hwnnw, mae annibyniaeth unai'n golygu trethi uwch o lawer neu doriadau i wasanaethau cyhoeddus.

### **Ond pa mor wir yw hyn?**

Mae'n bwysig cydnabod bod ein diffyg ar hyn o bryd tua 18 y cant o'r Cynnyrch Domestig Gros. Cyn pandemig COVID-19, roedd y diffyg hwn yn lleihau, a dylid nodi bod £5 biliwn o'r diffyg o ganlyniad i bensiynau'r wladwriaeth – gan adlewyrchu'r anghydbwysedd presennol yn ein

poblogaeth sy'n heneiddio. Mae'r ffigurau yn adroddiad Canolfan Llywodraethiant Cymru yn cynnwys arian sy'n cael ei wario yng Nghymru, ond maen nhw hefyd yn cynnwys dyraniadau ar gyfer gwariant ledled y Deyrnas Gyfunol, sydd, gellid dadlau, yn pennu cyfran rhy uchel ar gyfer Cymru. Mae llawer o'r arian hwn yn cael ei wario mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Gyfunol, heb i Gymru weld unrhyw fudd ohono.

Er enghraifft, ystyriwch y cyswllt rheilffordd cyflym HS2 rhwng Llundain a Birmingham (sy'n cael ei adeiladu ar hyn o bryd), y cyswllt HS3 arfaethedig yng Ngogledd Lloegr, a Crossrail yn Llundain. Er bod yr holl brosiectau yma wedi eu lleoli yn Lloegr, mae llywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn mynnu y bydd trigolion Cymru yn cael budd ohonyn nhw, ac felly mae'r cyfan yn cyfrif fel rhan o gost gwariant cyhoeddus yng Nghymru. Yn yr un modd, mae llywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn gosod £1.9 biliwn o wariant amddiffyn yn erbyn cyllideb Cymru – ffigur y gellid ei gwtogi yn sylweddol mewn Cymru annibynnol (gweler yr adran ar Amddiffyn). Mae Aelodau Seneddol San Steffan wedi cymeradwyo gwaith



i wella adeiladau'r Senedd yn Llundain, ar gost o £4 biliwn, a bydd rhan o'r gost honno'n cael ei chyfrif yn erbyn gwariant cyhoeddus Cymru. Mae'n ymddangos y gallwn ni dorri cryn dipyn o wariant cyhoeddus "Cymru" heb iddo wneud gwahaniaeth sylweddol i Gymru.

Wrth ystyried gwariant a refeniw'r llywodraeth yng Nghymru, mae hefyd yn ddefnyddiol i ni edrych ar yr Alban lle mae adroddiadau, yn debyg i'r un a luniwyd gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru, wedi'u cynhyrchu ers blynyddoedd, ac mae cryn drafod ynghylch eu rôl yn y ddadl ynghylch annibyniaeth. Mae'r economegwyr Jim a Margaret Cuthbert wedi astudio GERS, sef ffigurau Gwariant a Refeniw'r Llywodraeth yn yr Alban dros nifer o flynyddoedd ac wedi cynnig beirniadaeth sydd wedi bod yn sail i esblygiad yr adroddiad. Yn un o'u cyhoeddiadau mwyaf diweddar, honnir mai dim ond golwg rannol ar y sefyllfa ariannol y gall yr adroddiadau hyn ei roi. Yn benodol, dylen ni ystyried na all yr adroddiadau hyn gynnwys gwybodaeth am lif cyfalaf a buddsoddiad sy'n sail i'r 'Llyfr Pinc' blynyddol a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer economi'r

Deyrnas Gyfunol – ac fe allai'r data hwn wneud gwahaniaeth sylweddol i'r darlun cyffredinol.

Mae cwestiynau heb eu hateb hefyd ynghylch cyfyngiadau a diffygion y data a ddefnyddir ar gyfer yr adroddiadau hyn, gan gynnwys y ffaith bod angen amcangyfrif nifer helaeth o'r symiau hyn sy'n ymwneud â gwariant y Deyrnas Gyfunol, gan fod San Steffan, i bob pwrpas, yn gwrthod darparu'r data mwy cywir sydd ei angen. Mae Richard Murphy o Brifysgol Llundain yn economegydd sydd wedi gwyntyllu'r cwestiynau hyn yn ddiweddar er mwyn herio rhai o ragdybiaethau sylfaenol y ddadl.

### **Mae 'Cymru a Lloegr' yn golygu nad oes data'n ymwneud â Chymru**

Yn fwy na hynny, yng Nghymru ar hyn o bryd, mae pob cwmni wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr, gan mai un awdurdodaeth gyfreithiol sydd gennyn ni. O ganlyniad, bydd cwmnïau sydd â mwy nag un ffatri neu swyddfa yn cofrestru yn Lloegr a chaiff yr holl drethi eu prosesu yn y pencadlys yn Lloegr heb unrhyw wahaniaethu clir o ran pa drethi (yn enwedig treth gorfforaethol) sy'n cael eu codi gan y safle yng Nghymru. Nid yw'r

wybodaeth hon ar gael gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Y pwynt allweddol yw mai ychydig iawn y mae'r cyfanswm gwariant mewn adroddiadau fel GERS yn ei ddweud wrthyn ni am gyfanswm y gwariant cyhoeddus a allai fod ar gael i lywodraeth Cymru ar ôl annibyniaeth. O ran refeniw mae ffigurau GERS yn disgrifio'r sefyllfa bresennol a chanlyniadau'r penderfyniadau am drethi a wneir yn San Steffan. Maen nhw'n rhoi rhywfaint o syniad i ni am yr her yn y tymor byr, ond ychydig iawn sy'n cael ei ddatgelu ynghylch y refeniw o ran trethiant a allai fod ar gael i lywodraeth yng Nghymru o dan yr amgylchiadau gwahanol a ddeuai yn sgil annibyniaeth.

# *Y Bunt, yr Ewro neu Bunt Cymru?*

**Y**n ystod dadl y refferendwm yn yr Alban yn 2014, roedd cryn sôn am ddyfodol polisi ariannol. Mae'r Albanwyr eisoes yn cyhoeddi eu papurau banc eu hunain, ond yn y pen draw, Banc Lloegr sy'n eu gwarantu. Byddai cyhoeddi arian Cymru yn ddatblygiad newydd, ond mae'n faes lle byddai annibyniaeth yn caniatáu inni wneud y dewis iawn ar gyfer ein hamgylchiadau economaidd ein hunain.

Mae o leiaf bum opsiwn o ran arian cyfred, a phob un â'i fanteision a'i anfanteision ei hun:

## **Cadw'r bunt mewn undeb ffurfiol**

Dyma'r opsiwn a fyddai'n achosi'r newid lleiaf, ond byddai'n golygu cadw Banc Lloegr fel benthyciwr pan fydd popeth arall yn methu, a Banc Lloegr fyddai'n gosod cyfraddau llog. Gan y byddai'n golygu undeb cyllidol gyda Lloegr, byddai

amheuaeth a yw Cymru'n wirioneddol annibynnol.

### **Cadw'r bunt (neu arian arall) fel arian amnewid**

Mae hawl gyfreithiol gan wledydd i ddefnyddio pa arian bynnag maen nhw'n ei ddymuno, heb fod mewn undeb arian. Dan yr amgylchiadau hyn, defnyddir arian amnewid yn lle, neu yn ogystal ag, arian lleol. Ar hyn o bryd nid oes neb yn defnyddio'r bunt fel arian amnewid; doler America sydd fwyaf cyffredin (er bod rhai o wledydd Ewrop, er enghraifft Montenegro, yn defnyddio'r Ewro heb fod yn rhan o Barth yr Ewro na'r Undeb Ewropeaidd).

### **Arian Cymru wedi ei gyplysu â'r bunt (neu arian arall)**

Byddai gan Gymru ei harian ei hun – Punt Cymru – a fyddai'n union gyfwerth â phunt Lloegr. Byddai angen i Gymru sefydlu ei banc canolog ei hun (a chyhoeddi ei harian ei hun) a Sterling fyddai'r arian cyfreithiol o hyd. Fodd bynnag, byddai'n golygu y byddai gwerth arian Cymru'n codi ac yn disgyn yn ôl gwerth arian arall waeth beth fo effaith hynny ar economi Cymru. Mae hyn yn debyg i'r hyn wnaeth Iwerddon am lawer

blwyddyn, yna gadael i'w harian nofio'n rhydd gyda Sterling cyn i Iwerddon ymuno â'r Ewro.

### **Arian Cymru gyda'i gyfradd gyfnewid ei hun**

Byddai hyn yn golygu y byddai gan Gymru reolaeth lwyr dros bolisi ariannol a chyllidol, gan bennu cyfraddau llog a rheoli'r cyflenwad arian. Er y gallai fod angen mwy o waith i gyflwyno hyn na rhai o'r opsiynau sy'n cael eu hystyried yma, mae manteision di-ben-draw o gael sofraniaeth ariannol lawn, gan nad yw'r angen i gael cyllideb gytbwys dros gyfnod o amser yn cyfyngu ar y gyllideb.

Yn y tymor byr, er mwyn osgoi codi a gostwng mawr yng ngwerth yr arian, gallai fod yn fuddiol cyplysu arian newydd Cymru ag arian sy'n bodoli'n barod. Er ei bod yn aelod o'r Farchnad Sengl yn rhinwedd ei chytundeb masnach dwyochrog, mae gan y Swistir ei harian ei hun. Mae'r Ffranc wedi ei chyplysu fwy neu lai â'r Ewro er mwyn osgoi cynnydd mawr yn ei gwerth, ac mae'n cael ei hystyried yn hafan ddiogel i arian pan fydd trafferthion ariannol yn Ewrop. Gallai Cymru wneud rhywbeth tebyg gyda Sterling (neu arian arall fel yr Ewro) er mwyn osgoi gorboethi'r arian, a allai greu anhawster i'r sectorau allforio a thwristiaeth.

## **Ymuno â'r Ewro**

Dim ond pe bai Cymru'n dewis bod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd y byddai hyn yn opsiwn, a byddai dal i fod angen arian Cymru yn y cyfamser, gyda rheoliadau ar ddiffygion gwario cyhoeddus ac aelodaeth wirfoddol o'r Mecanwaith Cyfradd Gyfnewid Ewropeaidd (ERM II) am ddwy flynedd. Fodd bynnag, byddai masnachu â'r Undeb Ewropeaidd yn haws ac fe allai hwyluso twristiaeth o dramor; ond gallai hefyd olygu cael ein sugno i undeb cyllidol Ewropeaidd a'r posibilrwydd o ailgynnal refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2016.

Yn y pen draw, mater i'r cyhoedd ei benderfynu fyddai hwn, fel rhan o'r trafodaethau am annibyniaeth. Byddai gwneud y dewis iawn yn fater o ddewis yr hyn sy'n gweddu orau i'n hamgylchiadau economaidd. Ond y pwynt yw bod digonedd o opsiynau ar gael. Does dim angen gwrando ar y bobl sy'n codi bwganod ynglŷn â gorfodi Cymru i fabwysiadu arian anaddas yn groes i'n hewyllys. Mae annibyniaeth yn golygu defnyddio'r arfau sydd gennym ni i'n helpu i ddewis yr opsiwn sy'n gweithio orau i Gymru.

# *Beth am y Frenhiniaeth?*

**B**arn *YesCymru* yw ei bod yn well cadw mater annibyniaeth a mater y frenhiniaeth ar wahân. Gall pobl sy'n cefnogi annibyniaeth i Gymru, neu sy'n chwilfrydig ynglŷn ag annibyniaeth, fod o blaid cadw'r frenhiniaeth, ac mae pobl eraill yn weriniaethwyr pybyr.

Un cynnig yw y gellid cadw'r frenhiniaeth ar ôl annibyniaeth trwy fabwysiadu statws 'teyrnas y Gymanwlad', gan ddilyn cynsail hanesyddol gwledydd fel Awstralia a Chanada (lle mae Brenin neu Frenhines Prydain yn dal yn bennaeth y wladwriaeth). Petaen ni'n cadw'r frenhiniaeth ar ôl annibyniaeth, hyd yn oed dros dro, byddai'r berthynas rhwng Cymru a'r Goron yn wahanol. Byddai tir sy'n eiddo i'r teulu brenhinol ar hyn o bryd – Ystad y Goron – yn trosglwyddo i reolaeth Llywodraeth Cymru. Yn 2019-20, roedd gan Ystad y Goron yng Nghymru asedau eiddo o £96.8 miliwn a refeniw o £8.8 miliwn. Nid yw Ystad y Goron yn gwneud elw mawr, ond byddai gan



Lywodraeth Cymru rwydd hynt i ailfuddsoddi'r arian, gan ddal y tir mewn ymddiriedolaeth.

I'r rhai sy'n gwrthwynebu cadw'r frenhiniaeth, mae'n werth cofio iddi gymryd pymtheng mlynedd (ar ôl Cytundeb Eingl-Wyddelig 1921) i Iwerddon ddod yn weriniaeth. Pe bai Cymru'n penderfynu peidio â chael pennaeth etholedig ar y wladwriaeth o'r dechrau'n deg ar ôl annibyniaeth, a phe bai pobl Cymru'n rhoi mandad i wleidyddion wneud hynny, byddai modd rhoi'r cwestiwn hwn gerbron y cyhoedd mewn refferendwm arall, ar ffurf gwelliant cyfansoddiadol.

# *Cyfansoddiad i Gymru*

**Y**m 1997, pleidleisiodd pobl Cymru, mewn refferendwm, i gefnogi datganoli. Ddwy flynedd wedyn, sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Senedd Cymru yw'r enw swyddogol bellach). Yn 2011, pleidleisiodd pobl Cymru mewn refferendwm arall, y tro hwn i gynyddu pwerau deddfu'r Senedd. Yn ystod proses Brexit, mae Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol wedi ceisio dwyn pwerau yn ôl iddi hi'i hun drwy Fil y Farchnad Fewnol. Mae hyn er gwaetha'r ffaith mai Llywodraeth Cymru oedd yn gyfrifol am y pwerau hynny (o'r UE) cyn Brexit.

## **Democratiaeth**

Peth dros dro yw pŵer datganoledig, a pheth hawdd i'w gipio yn ôl. Byddai annibyniaeth yn caniatáu inni sefydlu democratiaeth Gymreig ar sylfaen barhaol.

Mae'n bosib tanseilio ein sefydliadau democrataidd yng Nghymru am nad oes gan y Deyrnas Gyfunol

gyfansoddiad ysgrifenedig. Crëwyd Senedd Cymru drwy basio deddf yn Llundain, a byddai modd cyfyngu ar ei phwerau drwy basio deddf arall yn Llundain.

Mae'r Deyrnas Gyfunol yn un o'r ychydig wledydd yn y byd sydd heb ei chyfansoddiad ysgrifenedig ei hun. Yn lle hynny, caiff "cyfansoddiad" y Deyrnas Gyfunol ei ffurfio gan benderfyniadau deddfwyr yn Lloegr a dyfarniadau llysoedd Lloegr, a'r rheini weithiau'n genedlaethau neu'n ganrifoedd oed.

Pan ddaw gwlad yn annibynnol, un o'i champau cyntaf yw ysgrifennu cyfansoddiad newydd ar y cyd, gan nodi sut y caiff y wlad ei llywodraethu. Mae'n gosod cyfrifoldebau a chyfyngiadau ar y llywodraeth. Mae'n cyflwyno hawliau parhaol, diymwad i ddinasyddion y wlad. Mae llawer o wledydd democrataidd modern yn defnyddio eu cyfansoddiadau i warantu hawliau dynol cyffredinol. Maen nhw'n amddiffyn yr unigolyn, ac yn gwarantu i'w dinasyddion ryddid mynegiant, rhyddid i ymgynnull, rhyddid crefyddol, yr hawl i breifatrwydd a bywyd teuluol.

## **Amrywiaeth a Chynhwysiant**

Byddai cyfansoddiad newydd yn gyfle i wneud cyfiawnder â'r rheini sydd wedi brwydro gyhyd, sydd wedi wynebu brwydrau chwerw dros hawliau y mae'r rhan fwyaf ohonon ni'n eu cymryd yn ganiataol. Mae Cymry croenliw, menywod, pobl anabl, pobl LGBTQ+ ac eraill yn dal i gyfrannu mewn ffordd hynod o werthfawr ac allweddol at ein bywyd cyhoeddus a'n cymunedau. Mae hynny wedi'i anwybyddu, ac wedi'i gymryd yn ganiataol, ers tro byd.

Rhaid i Gymru ddefnyddio'r cyfle a ddaw drwy ddrafftio cyfansoddiad newydd i gydnabod i ninnau fod â rhan mewn cam-drin hanesyddol, gan weithio i wrthod y gwahaniaethu sefydliadol a systemig sydd wedi gadael rhai o'n pobl fwyaf bregus ac ymylol mewn ofn.

Rhaid i gyfansoddiad newydd warantu triniaeth deg yn y system cyfiawnder troseddol, wrth i Gymru geisio mynd i'r afael â chamddefnyddio pwerau'r heddlu a phwerau ymchwilio, ynghyd â'n cyfradd garcharu (yn enwedig ymhlith pobl groenliw) sy'n gywilyddus o uchel o dan reolaeth y Deyrnas Gyfunol.

## **Hawliau Sylfaenol**

Mae annibyniaeth yn llechen lân, ac yn gyfle i greu a ffurfio Cymru newydd, gan weithio yn ôl rheolau y dewiswn eu gosod ein hunain. Mae llawer o wledydd wedi mabwysiadu cyfansoddiad sy'n mynd y tu hwnt i warantu hawliau rhyddfrydig sylfaenol. Gallai cyfansoddiad Cymreig, er enghraifft, warantu hawl i ofal iechyd ac addysg am ddim. Gallai dinasyddion gael yr hawl i gartref gweddus, gan roi cyfrifoldeb ar bob llywodraeth yn y dyfodol i ddileu digartrefedd.

Gallai cyfansoddiad Cymru hefyd ddilyn esiampl cyfansoddiad y Ffindir, sy'n diogelu ei dinasyddion rhag gwahaniaethu ar sail iaith, gan roi dyletswydd gyfreithiol barhaol ar bob llywodraeth yn y dyfodol i ddiogelu a meithrin y Gymraeg.

Byddai'r broses o ddrafftio Cyfansoddiad Cymru yn dechrau cyn gynted â phosibl ar ôl refferendwm annibyniaeth llwyddiannus, gan fynd rhagddi yn ystod y cyfnod pontio o drafod rhwng llywodraethau Cymru a'r Deyrnas Gyfunol. Mae nifer o ffyrdd y gallai Cymru wneud hyn: fe allen ni naill adael y dasg i Senedd Cymru, ffurfio confensiwn

cyfansoddiadol arbenigol a fydd wedi'i sefydlu'n benodol i ysgrifennu cyfansoddiad, neu hyd yn oed ysgrifennu cyfansoddiad drwy ddull "cyfrannu torfol" drwy agor y broses i'r cyhoedd.

Ar ôl cytuno ar gyfansoddiad, mae'n dueddol o fod yn anodd ei newid. Mewn rhai gwledydd, drwy refferendwm yn unig y gellir newid cyfansoddiad. Mae gwledydd eraill yn ei gwneud yn ofynnol cael uwchfwyafrif seneddol i bleidleisio o blaid unrhyw newid – dau draean o'r aelodau fel arfer, yn y ddau dŷ. Byddai'n rhaid penderfynu ar yr union broses o wneud gwelliannau i gyfansoddiad Cymru wrth ddrafftio'r cyfansoddiad. Ond yr hyn sy'n sylfaenol bwysig yw y byddai cyfansoddiad ysgrifenedig yn rhoi sylfaen barhaol i ddemocratiaeth Cymru. Byddai'n gwarantu hawliau holl bobl a chymunedau Cymru, a dim ond pobl Cymru a allai newid ein hawliau cyfansoddiadol ni ein hunain.

# *Cymru, y byd a Brexit*

**Y**chydig iawn o ddylanwad sydd gan Gymru ar faterion byd-eang ar hyn o bryd. Ar y llwyfan rhyngwladol, llywodraeth San Steffan sy'n siarad ar ran y Deyrnas Gyfunol gyfan. Gan mai Lloegr yw 84 y cant o boblogaeth y Deyrnas Gyfunol, anghenion Lloegr sy'n gyrru ein trafodaethau a'n perthynas â gwledydd eraill. Gwelsom hyn eisoes yn ystod trafodaethau Brexit: ym mis Ionawr 2017, datgelwyd bod llywodraeth Prydain yn ystyried mai blaenoriaeth isel yw'r diwydiant dur yn nhrafodaethau masnach y dyfodol. Nid yw'n bwysig i Loegr, ac felly caiff ei anfon i gefn y ciw.

Rydyn ni wedi gweld hyn hefyd wrth ddatblygu'r polisi mewnfudo ar gyfer y cyfnod ar ôl Brexit. Mae Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol wedi gosod trothwy incwm ar gyfer darpar fewnfudwyr, a hynny ar sail cyflogau cyfartalog sydd wedi'u camliwio gan lefelau de Lloegr. Yng Nghymru, mae meysydd fel gofal cymdeithasol, lletygarwch, y GIG a'r diwydiant bwyd wedi dibynnu ar weithwyr mudol i lenwi

bylchau llafur, ond mae'r polisi mewnfudo wedi creu sefyllfa lle mae'r sectorau allweddol hyn yn wynebu ansicrwydd y gellid bod wedi'i osgoi'n llwyr.

## **Cymru annibynnol y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd**

Beth bynnag fo'ch barn am yr Undeb Ewropeaidd, annibyniaeth yw'r unig ffordd i sicrhau bod gan Gymru berthynas â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol ar ôl Brexit. Os oes rhaid inni lunio cytundebau masnach newydd, mae angen i'r cytundebau hyn fod yn rhai sy'n ffafriol i Gymru. Nid oes modd ymddiried yn llywodraeth Prydain i roi economi Cymru yn gyntaf. Ei blaenoriaeth hi yw diogelu'r banciau a'r gwasanaethau ariannol, sydd â'u swyddfeydd a'u pencadlysoedd yn ne-ddwyrain Lloegr. Ni fydd diwydiannau Cymru'n agos at frig rhestr Llundain wrth drafod cytundebau masnach.

Gallai Cymru annibynnol (y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd) lunio ei chytundebau ei hun, gan olygu y gallai frwydro am setliad teg ar gyfer y rhannau hynny o'r economi sy'n bwysig i ni.

## **Mynediad i'r farchnad sengl heb fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd**

Fe allen ni ddilyn esiampl y Swistir neu Norwy



a thalu i gael mynediad i'r farchnad sengl (naill ai'r tu mewn i Gymdeithas Masnach Rydd Ewrop (EFTA) neu'r tu allan iddi). Fe allen ni hefyd drafod ein cytundeb masnach rydd ein hunain â'r Undeb Ewropeaidd.

## **Ailymuno â'r Undeb Ewropeaidd**

Dewis arall fyddai i Gymru annibynnol gynnal refferendwm ar fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd, ac yn ddibynnol ar y canlyniad, fe allen ni wneud cais i ailymuno drwy gyfrwng Erthygl 49 Cytundeb Lisboa. Byddai'n rhaid i Gymru dderbyn bod gan bobl ryddid i symud a byddai'n rhaid iddi gyfrannu at gyllideb flynyddol yr Undeb Ewropeaidd; ond yn 2016, amcangyfrifodd papur gan Brifysgol Caerdydd fod Cymru'n cael £245 miliwn yn fwy gan yr Undeb Ewropeaidd nag oedd yn ei dalu o dan drefniant aelodaeth y Deyrnas Gyfunol. Ni fyddai'r broses yn un hawdd, ond y ffaith yw bod rhaid i Gymru annibynnol wneud ei phenderfyniadau ei hun am ei lle yn y byd.

Pa bynnag ffordd y pleidleisioch chi yn refferendwm yr Undeb Ewropeaidd, y ffaith yw

mai'r ffordd orau i ddiogelu buddiannau Cymru yw sicrhau bod gan Gymru sedd wrth y byrddau trafod byd-eang, i ddadlau achos Cymru yn y byd. Fel y gwelso ni yn ddiweddar, efallai'n fwy eglur nag erioed: yn hytrach na bod yn "gryfach gyda'n gilydd" yn y Deyrnas Gyfunol, aiff llais Cymru ar goll yn llwyr wrth drafod y berthynas â'r Undeb Ewropeaidd a gwledydd eraill.

# *Amddiffyn*

**U**n o brif swyddogaethau unrhyw lywodraeth yw amddiffyn ei dinasyddion. Mae hyn yn golygu llawer mwy na chael awyrlu a llongau cludo awyrennau; mae hefyd yn golygu ein diogelu rhag niwed, ar ba bynnag ffurf y daw – boed yn fygythiad milwrol, yn drychineb a wnaed gan ddyn neu’n drychineb naturiol.

Felly’r cwestiwn cyntaf i’w ofyn yw: ‘Rhag beth mae angen amddiffyn Cymru?’

Gellir dadlau bod Cymru wedi’i lleoli yn un o rannau mwyaf diogel y byd; go brin y bydd unrhyw wlad dramor yn ymosod ar Gymru nac yn ei meddiannu. Y perygl diogelwch mwyaf i Gymru yw ein cysylltiad â pholisi tramor y Deyrnas Gyfunol – bydd annibyniaeth yn ein gwneud yn fwy diogel. Ymysg peryglon diogelwch eraill a allai wynebu Cymru ar ôl annibyniaeth fyddai materion yn ymwneud â newid hinsawdd, fel llifogydd, erydu arfordirol, tanau coedwig a thywydd eithafol.

Mae gan y fyddin rôl i'w chwarae wrth gefnogi polisi tramor hefyd. Mae hynny'n cynnwys ymladd, ond mae yr un mor debygol o fod yn cynnwys cenhadaeth heddwch, cynnig cymorth mewn cyfnodau o drychinebau, gwasanaeth chwilio ac achub, patrolau i orfodi rhwymedigaethau polisi pysgodfeydd, yn ogystal â dyletswyddau gwrth-smyglo a gwrthderfysgaeth. Crybwyllwyd sefydlu "Academi Heddwch" ar gyfer Cymru yn seiliedig ar fodolau Fflandrys a Chatalonia; fe allen ni hefyd ddilyn esiampl Iwerddon gan sefydlu canolfan ragoriaeth ar gyfer hyfforddi personél milwrol ar gyfer gwaith dyngarol a chadw heddwch.

Mae'n gwbl bosibl i genedl fodoli heb fyddin. Nid oes gan Costa Rica, sydd â phoblogaeth o 4.5 miliwn, luoedd arfog ers 1949, na chwaith Wlad yr Iâ, ers 1869. Pe bai Cymru'n dewis cael byddin, sut un fyddai honno, a faint fyddai'n ei gostio?

Os byddwn yn penderfynu dilyn esiampl Iwerddon a sefydlu 'Lluoedd Amddiffyn Cymru', byddai'n debygol o gael strwythur gorchymyn sengl yn cynnwys byddin, a gwasanaethau llynges ac awyrlu, gyda'r pwyslais ar luoedd byddin gyffredin. Byddai'r rhain yn gallu galw

ar gefnogaeth milwyr wrth-gefn, gyda niferoedd ‘Lluoedd Amddiffyn Cymru’ yn debygol o fod rhwng 5,000 a 7,000.

Mae’n bwysig cofio bod gwariant milwrol y Deyrnas Gyfunol (y pen) yn wythfed yn y byd. Serch hynny, nid oes yr un gatrrawd filwrol wedi ei chartrefu yng Nghymru er gwaethaf honiad llywodraeth y Deyrnas Gyfunol ei bod yn gwario £1.9 biliwn y flwyddyn ar y fyddin yng Nghymru. Mae hyn yn fwy na’r swm sy’n cael ei wario ar ein cyfundrefn addysg bob blwyddyn (£1.8 biliwn yn 2019/20). Mae dros bum gwaith cymaint â’r cyfanswm sy’n cael ei wario ar yr heddlu yng Nghymru (£365 miliwn). O gymharu, mae Iwerddon yn gwario swm sy’n gyfwerth â £140 y pen ar amddiffyn. Pe bai Cymru’n gwario swm tebyg y pen, byddai’n cyfateb i £430 miliwn y flwyddyn – llawer is na £1.9 biliwn.

Anfon milwyr i faes y gad yw un o brif gyfrifoldebau a phenderfyniadau unrhyw wleidydd. Fodd bynnag, mae gan Brif Weinidog y Deyrnas Gyfunol bwerau i fynd i ryfel heb gymeradwyaeth seneddol. Gallai Cymru annibynnol osod cyfyngiadau cyfansoddiadol ar

allu gwleidyddion i anfon milwyr i ryfel.  
O ran diogelwch mewnol, mae'r Deyrnas Gyfunol yn cadw mwy o wylidwriaeth ar ei dinasyddion na bron bob gwladwriaeth arall. Mae dinasyddion Prydain yn byw eu bywydau beunyddiol o dan lygaid mwy o gamerâu teledu cylch cyfyng nag unrhyw wlad arall yn Ewrop. Mae Deddf Pwerau Ymchwilio 2016 – a elwir yn 'Siarter Busnesu' – yn caniatáu pwerau eang i'r llywodraeth weld ein gweithgareddau ar-lein. Byddai Cymru annibynnol yn gallu ymgorffori hawl i breifatrwydd yn ei chyfansoddiad, gan gyfyngu ar allu llywodraethau'r dyfodol i amharu ar fywydau preifat pobl.

# *Mewnfudo a Chenedligrwydd*

**F**el cenedl annibynnol, Cymru fyddai'n penderfynu pwy a allai groesi ein ffiniau, boed i fyw yma dros dro (wrth astudio mewn prifysgol, er enghraifft), neu i roi bywyd newydd i'w hunain a'u teuluoedd. Fe allen ni ddewis ffin galed, ond nid dyma'r unig opsiwn, ac ni fyddai annibyniaeth yn golygu bod angen gwarchodwyr ar Bont Hafren.

Mae Iwerddon yn annibynnol ers 1922, ond pan fyddwch chi'n gadael y fferi yn Nulyn neu Rosslare nid oes angen i chi ddangos eich pasbort. Mae'r Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon wedi cytuno ar Ardal Deithio Gyffredin (CTA) sy'n caniatáu i ddinasyddion y ddwy wlad deithio fel y mynnan nhw. Yn 2019, cytunodd llywodraethau Prydain ac Iwerddon ar femorandwm cyd-ddealltwriaeth i gadw'r CTA ar ôl Brexit. Byddai Cymru annibynnol, fel Alban annibynnol, yn debygol o gael cynnig yr un fargen ag Iwerddon.

Yn y pen draw, byddai mewnfudo yn fater i lywodraeth Cymru ar ôl annibyniaeth, a byddai ganddi'r gallu i wneud penderfyniadau sy'n iawn i bobl Cymru. Gallai hyn olygu gwneud cytundeb gyda gweddill y Deyrnas Gyfunol, a chytuno ar bolisi mewnfudo cyffredin. Neu gallai hefyd olygu ffurfio cytundebau annibynnol gyda gweddill y byd o ran pwy a all fyw a gweithio yng Nghymru.

Gallwn osgoi digwyddiadau erchyll fel y ffordd y cafodd cenhedlaeth Windrush ei thrin gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, a hynny drwy gefnu ar y polisi "Amgylchedd Gelyniaethus" sy'n bwlio pobl er mwyn eu darbwylo i beidio â mudo. Byddai Cymru mewn sefyllfa dda i ddatblygu dull gwaraidd o ymdrin â mewnfudo a lloches, gyda thegwch a pharch yn ganolog i hynny.

Y pwynt allweddol yw mai pobl Cymru fyddai'n penderfynu ar bolisiau ymweld, mewnfudo a dinasyddiaeth, a hynny, fel popeth arall, ar sail anghenion Cymru.



# *Ond beth am.....?*

Bydd y syniad o annibyniaeth yn apelio at nifer o bobl, ond mae nifer yn poeni fod hyn fel cadw'r brych a thaflu'r babi! Mae adeiladu democratiaeth newydd yn swnio'n gyffrous, ond y gofid i'r rhan fwyaf o bobl yw y gallai hyn droi eu bywydau wyneb i waered dros nos.

## **A fyddwn ni'n dal i allu gwylio'r un rhaglenni teledu a radio?**

Fel y dywed y byrfoddau Saesneg, corfforaeth Brydeinig yw'r BBC. Caiff eich arian trwydded ei gasglu gan yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon yn Llundain, ac yna'i drosglwyddo i'r BBC i gyllido'r rhaglenni. Bwrdd Unedol y BBC yn Llundain sy'n penderfynu sut y caiff yr arian hwnnw ei rannu i'r gwahanol genhedloedd a rhanbarthau. Mae pedwar ar ddeg o aelodau ar y bwrdd hwn, a dim ond un sy'n cynrychioli Cymru.

Pe bai Cymru'n annibynnol, gallai'r BBC benderfynu peidio â darparu gwasanaethau ar

gyfer gwylwyr a gwrandawyr yng Nghymru. Pe digwyddai hyn, byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru benderfynu beth a allai lenwi'r bwlch – o bosib sefydlu Gwasanaeth Darlledu i Gymru. Os na fyddai'r BBC yn darparu gwasanaeth i Gymru, yna byddai'n colli'r incwm o'r drwydded yng Nghymru. Canlyniad llawer mwy tebygol yw y gellid diwygio'r BBC o dan drefniant ffederal. Byddai BBC Cymru yn datblygu'n endid cyfreithiol ar wahân, gan weithio'n gyfochrog gyda BBC Lloegr, BBC yr Alban ac o bosib Gogledd Iwerddon i ddarparu gwasanaeth a fydd yn adlewyrchu dyheadau gwahanol y pedair cenedl.

Byddai'r cyfrifoldeb dros S4C yn trosglwyddo o lywodraeth y Deyrnas Gyfunol i Lywodraeth Cymru. Ni fyddai llawer o effaith ar deledu masnachol. Mae Sky ar gael yng ngweriniaeth Iwerddon ac felly hefyd Virgin Media. Mae modd cael gwasanaethau teledu BT hefyd drwy wasanaeth Eir Sport Iwerddon. Does dim rheswm ymarferol pam na all unrhyw un o'r gwasanaethau hyn (neu wasanaethau'r dyfodol) fod ar gael mewn Cymru annibynnol. Byddai cyfle hefyd i ddatblygu mwy o gyfryngau wedi'u seilio yn y

gymuned a chyfryngau nid-er-elw er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg dybryd a geir ar hyn o bryd yn narpariaeth newyddion sy'n benodol i Gymru.

## **Beth fyddai'n digwydd i dimau chwaraeon Cymru?**

Mae Cymru eisoes yn “annibynnol” mewn nifer o chwaraeon – yn arbennig rygbi a pêl-droed – ac mae gennyn ni draddodiad cryf ym meysydd bocsio a beicio. Byddai annibyniaeth yn arwain at greu timau Olympaidd a Pharalympaidd, a fyddai'n golygu y gallai athletwyr o Gymru sydd ar hyn o bryd yn methu cystadlu yn y gemau Olympaidd a Pharalympaidd (oherwydd y gystadleuaeth o fewn Tîm GB) wireddu eu breuddwydion.

Y gamp fwyaf poblogaidd sy'n gwahardd Cymru fel gwlad rhag cystadlu ar y lefel uchaf yw criced. Ein bwrdd criced ni ein hunain – Criced Cymru – sy'n atal tîm criced i Gymru rhag cael ei ffurfio, a hyn er gwaetha'r ffaith y byddai cystadlu yn y cystadlaethau undydd a T20 yn rhoi hwb enfawr i'r gêm.

Gan fod Cymru eisioes yn chwarae pêl-droed yn “annibynnol”, does dim rheswm pam na allai Dinas

Abertawe a Dinas Caerdydd a'r clybiau Cymreig eraill gymryd rhan ym mhyramid Lloegr ar ôl annibyniaeth os ydyn nhw'n dewis gwneud hynny.

### **Beth fyddai'n digwydd i gyflogwyr mawr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru fel y DVLA yn Abertawe, y Swyddfa Ystadegau yng Nghasnewydd a Chyllid a Thollau?**

Gallai rhai swyddi ddiflannu wrth i adrannau leihau, ond byddai ar Gymru angen awdurdod trwyddedu cerbydau, swyddfa ystadegau gwladol ac awdurdod trethu ei hun, a llawer mwy.

Gellid adleoli gweithwyr yn y sector cyhoeddus i adrannau eraill, fel fersiwn Cymru o'r Swyddfa Dramor neu'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae'n debygol y byddai digon o swyddi yn cael eu creu mewn adrannau cyhoeddus newydd yn lle'r rhai a fydd yn diflannu o adrannau llai o faint.

### **A fydd hawl i ddefnyddio ysbytai yn Lloegr?**

Os buoch chi erioed yn sâl ar eich gwyliau yn Ewrop, fyddwch chi'n gwybod bod gennych chi hawl i ddefnyddio'r un ysbytai a meddygon â'r bobl leol. Mae'r ysbyty yn cymryd eich manylion, ac yn rhoi'r bil am eich gofal i'r llywodraeth gartre. Fel y crybwyllwyd eisoes, mae'r Ardal Deithio

Gyffredin (CTA) yn gwarantu hawliau gofal iechyd dwyochrog. Cyn belled â bod y CTA (neu drefniant tebyg) ar waith, bydd unrhyw un sy'n teithio yn ôl ac ymlaen rhwng Cymru a Lloegr, yn ogystal â phobl sy'n byw ar y ffin, yn cael gwarant o'u hawl i ofal iechyd ble bynnag y byddan nhw'n digwydd bod wrth gael eu taro'n wael.

### **Beth am fy nghyngor lleol?**

Gallai Cymru annibynnol greu system wirioneddol ystyrlon ar gyfer democratiaeth leol. Gellid sicrhau amddiffynfa gyfansoddiadol i'r cynghorau i atal ymyrraeth oddi wrth y llywodraeth ganolog.

Gallen nhw gael yr hawl i godi a chadw cyfran fwy o'u cyllid eu hunain, gan wario trethi lleol ar flaenoriaethau lleol. Gellid sefydlogi'r ffiniau fel nad oes mwy o ailwampio diangen. Mae annibyniaeth yn gyfle i ailddyfeisio democratiaeth Cymru.

# *Y llwybr tuag at Annibyniaeth*

**D**im ond os bydd pobl Cymru yn dymuno hynny y gall Cymru fod yn annibynnol. Byddai'n rhaid i fwyafrif pleidleiswyr Cymru gefnogi annibyniaeth mewn refferendwm wedi'i gydnabod gan lywodraeth Cymru a llywodraeth San Steffan.

Y cam cyntaf yw ethol Llywodraeth Cymru sydd o blaid annibyniaeth. Gallai hyn fod yn blaid fwyafrifol, neu'n glymblaid sy'n cefnogi annibyniaeth. Un o'r prif bethau mae angen i ni ei wneud yw ceisio darbwyllo ein pleidiau gwleidyddol fod hwn yn syniad sydd yn werth ymladd drosto. Ar hyn o bryd, dim ond un blaid wleidyddol fawr sy'n cefnogi annibyniaeth i Gymru, ond does dim rheswm pam na ddylai rhai eraill wneud hynny. Mae cefnogwyr *YesCymru* yn cynrychioli ystod eang o bleidiau gwleidyddol ac mae cyfle i aelodau ddylanwadu ar bolisiau'r pleidiau hyn.

Mae annibyniaeth i Gymru yn gyfle i ddatblygu democratiaeth fodern, sy'n well, sy'n fwy effeithlon

ac sy'n fwy atebol. Dyma achos y dylai gwleidyddion o bob plaid ei gefnogi. Does dim rheswm pam na ddylai aelodau o nifer o bleidiau gwleidyddol gefnogi annibyniaeth. Mae annibyniaeth yn ymwneud â chreu democratiaeth sy'n gweithio i bobl Cymru, er mwyn helpu i greu Cymru newydd addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Mae hwn yn achos y dylai pob un ohonon ni allu ei gefnogi.

Unwaith bydd y dadleuon wedi'u cyflwyno'n glir ac yn agored i'w trafod, gallwn ddechrau cynllunio ar gyfer annibyniaeth.

Er mai'r ffordd amlycaf o sicrhau annibyniaeth yw drwy refferendwm, nid oes gan Gymru ar ei phen ei hun y pŵer i alw refferendwm annibyniaeth.

Byddai'n rhaid i San Steffan gytuno, a phasio deddfwriaeth sy'n awdurdodi refferendwm. Ond pe bai mwyafrif aelodau Senedd Cymru yn pasio cynnig yn galw am refferendwm, byddai'n anodd iawn i Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol wrthod.

Byddai trafodaethau rhwng llywodraeth Cymru a llywodraeth Prydain yn arwain at gyflwyno bil refferendwm yn San Steffan. Y Comisiwn Etholiadol fyddai'n gyfrifol am oruchwylio manylion fel geiriad y cwestiwn, sut byddai'r ymgyrch yn cael ei

chynnal, a phwy fyddai'n gallu pleidleisio. Byddai pobl Cymru yn pleidleisio, gan benderfynu naill ai aros fel rhan o'r Deyrnas Gyfunol neu adael.

Os bydd pleidlais o blaid annibyniaeth mewn refferendwm, ni fyddai Cymru'n dod yn wlad annibynnol ar unwaith. Byddai'n rhaid trefnu confensiwn cyfansoddiadol. Byddai'n rhaid i'r ddwy lywodraeth ddechrau trafodaethau ac mae'n debygol y byddai cyfnod pontio. Byddai angen i lywodraeth Cymru benderfynu pa fath o berthynas fyddai rhyngddi a gweddill gwledydd Prydain, ynghyd â gweddill y byd. Rhwng popeth, gallai sawl blwyddyn fynd heibio cyn cwblhau'r broses. Yn 2013, amcangyfrifodd Llywodraeth yr Alban y byddai angen tua dwy flynedd i gwblhau'r broses annibyniaeth, a chaniataodd Erthygl 50 Cytundeb Lisboa ddwy flynedd i'r Deyrnas Gyfunol gyd-drafod telerau ei hymadawiad o'r Undeb Ewropeaidd.

Pan fyddai'r holl drafodaethau wedi'u cwblhau, byddai angen i Gymru gynnal etholiadau. Byddai llywodraeth newydd yn cael ei hethol o dan delerau cyfansoddiad newydd a byddai Cymru, o'r diwedd, yn sefyll ochr yn ochr â chenhedloedd rhydd eraill y byd.



# *Sut alla' i helpu i wireddu hyn?*

**N**od *YesCymru* yw ennill annibyniaeth i Gymru er mwyn gwella'r ffordd y caiff ein gwlad ei llywodraethu. Rydyn ni'n credu mewn dinasyddiaeth gynhwysol, sy'n croesawu ac yn dathlu'r ffaith fod pawb – o ba bynnag gefndir – sy'n dewis gwneud Cymru yn gartref iddyn nhw yn ddinasyddion llawn yn y Gymru newydd. Os ydych chi'n cefnogi'r nod hwn:

- Rhannwch y llyfryn hwn â phobl eraill. Mae copi pdf rhad ac am ddim ar-lein yma – [cy.yes.cymru/annibyniaeth](http://cy.yes.cymru/annibyniaeth)
- Ymunwch â *YesCymru*! Gallwch ymuno â'n mudiad ar-lein – [cy.yes.cymru/ymaelodi](http://cy.yes.cymru/ymaelodi)
- Dilynwch ni ar Twitter – [@YesCymru](https://twitter.com/YesCymru), Facebook – [facebook.com/YesCymru](https://facebook.com/YesCymru) ac Instagram – [@YesCymru](https://instagram.com/YesCymru)

- Ymunwch ag un o'r nifer cynyddol o grwpiau *YesCymru* lleol. Os nad oes un yn eich ardal chi, beth am ddechrau un? – [cy.yes.cymru/grwpiau](http://cy.yes.cymru/grwpiau).
- Rhannwch daflenni â phobl yn eich cymuned, trefnwch stondinau stryd a threfnwch gyfarfodydd cyhoeddus. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â ni.
- Siaradwch â'ch cynrychiolwyr etholedig, ac os ydych yn aelod o blaid wleidyddol, cofiwch eu lobio.
- Yn bwysicaf oll, trafodwch annibyniaeth gyda'ch ffrindiau, aelodau o'r teulu a chydweithwyr. Gyda'n gilydd, gallwn wneud gwahaniaeth.

Cysylltwch â ni:

- **Ebost:** [post@yes.cymru](mailto:post@yes.cymru)
- **Post:** YesCymru, Swyddfa 23609, Blwch Post 92, Caerdydd CF11 1NB
- **Twitter:** [@YesCymru](https://twitter.com/YesCymru)
- **Facebook:** [facebook.com/YesCymru](https://facebook.com/YesCymru)
- **Youtube:** [youtube.com/YesCymru](https://youtube.com/YesCymru)
- **Instagram:** [instagram.com/yescymru](https://instagram.com/yescymru)